# ETHOLIADAU ARWEINYDDIAETH

## RHEOLAU YMGEISWYR

### POBL ALLWEDDOL

**Daniel Meehan**
*Dirprwy Swyddog Etholiadau (DSE)*

Y DSE yw'r pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer unrhyw gwestiynau, ymholiadau neu gwynion; bydd y DSE yn cyfeirio materion at Swyddog Etholiadau UCM am ddyfarniad. I gysylltu â'r DSE, e-bostiwch undeb.etholiadau@aber.ac.uk

*Swyddog Etholiadau (SE) UCM*

Mae'r SE yn goruchwylio'r broses etholiadol gan sicrhau ei bod yn deg ac agored.

### DYDDIADAU ALLWEDDOL

| | |
|---|---|
| Enwebiadau | 11eg Ionawr – 5ed Chwefror |
| Hyfforddiant yr Ymgeiswyr | 21ain Ionawr |
| Briffio'r Ymgeiswyr | 5ed Chwefror |
| Cyfnod Ymgyrchu | 12fed – 18fed Chwefror |
| Cyhoeddi'r Canlyniadau | 18fed Chwefror |

## ENWEBIADAU

1. Rhaid cyflwyno pob enwebiadau drwy wefan www.umaber.co.uk/etholiadau erbyn 12pm dydd Gwener 5 Chwefror 2016.

2. Rhaid i'r enwebiad gynnwys enw a rhif myfyriwr yr enwebai.

3. Ni chaiff unrhyw aelod ymgeisio ar gyfer mwy nag un swydd lawn amser yn yr un etholiad.

4. Cynhelir sesiwn hyfforddiant ar gyfer ymgeiswyr cyn cau'r enwebiadau er mwyn darparu arweiniad a gwybodaeth.

5. Rhaid cynnal cyfarfod briffio ar gyfer ymgeiswyr yn dilyn cau'r enwebiadau am 1:30pm Yn y cyfarfod hwn, bydd y DSE yn briffio'r rheiny sy'n ymwneud â'r etholiadau parthed y rheolau ymgyrchu. Rhaid i'r rheiny sy'n methu mynychu'r cyfarfod hwn sicrhau eu bod yn trefnu siarad â'r DSE cyn dechrau ymgyrchu.

## YMGYRCHU

6. Mae ymgyrchwyr yn gyfrifol am weithredoedd eu timoedd ymgyrchu. Rhaid iddynt gymryd pob camau rhesymol i sicrhau bod yr hyn mae eu hymgyrchwyr yn ei wneud yn cydymffurfio â'r rheolau ymgyrchu, a rhaid iddynt fod yn gallu dangos hyn pe bai cwyn yn cael ei wneud yn eu herbyn.

7. Chaiff ymgyrchwyr ond newid, symud neu ddiddymu eu defnyddiau ymgyrchu eu hunain.

8. Chaiff ymgyrchwyr ond defnyddio rhestrau gohebu pan fo'n gyfreithlon gwneud hynny. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd hyn yn golygu cael cydsyniad yr aelodau ar y rhestr i ddefnyddio eu manylion.

9. Ni chaiff ymgyrchwyr atal mynediad hwylus i, ac o fewn, adeiladau'r Undeb wrth ymgyrchu.

10. Ni chaiff ymgyrchwyr gyfathrebu â phleidleiswyr mewn unrhyw ffordd gynted y byddant wedi dechrau pleidleisio.

11. Ni ddylid ceisio llwgrwobrwyo fel rhan o unrhyw ymgyrch.

12. Ni ddylai ymgyrchwyr ymgymryd ag unrhyw weithgaredd ymgyrchu na allai eraill yn rhesymol ei wneud

13. Rhaid i bob ymgyrchydd gydymffurfio â'r rheolau ymddygiad yn adeiladau Undeb y Myfyrwyr neu ar dir y Brifysgol

## CYLLIDEB

14. Caiff cyllidebau ymgyrchu eu gosod gan y DSE, a chânt eu cyhoeddi ar ôl cau'r enwebiadau. Caiff y swm hwn ei ad-dalu gan yr Undeb pan fo'r ymgeisydd yn cyflwyno derbynebau.

15. Ni chaiff ymgyrchwyr wario mwy na'r hyn a ganiateir o fewn eu cyllideb.

16. Rhaid i bob ymgeisydd gyflwyno rhestr ysgrifenedig o holl gostau eu hymgyrch, gyda derbynebau cyfatebol, i'r Dirprwy Swyddog Etholiadau o fewn un awr i gau'r pleidleisio. Os nad yw ymgeiswyr yn gwario unrhyw arian yn ystod eu hymgyrch, rhaid gwneud hynny'n eglur yn y cyflwyniad.

17. Rhaid i unrhyw ddeunydd a ddefnyddir gan ymgeisydd gael ei gynnwys yn eu datganiad o wariant, ynghyd â derbynebau neu amcangyfrif rhesymol o bris y farchnad.

18. Rhaid i bob eitem nad yw wedi'i phrynu, ond a ddefnyddir at ddibenion ymgyrchu, gael ei phrisio gan y Dirprwy Swyddog Etholiadau.

19. Yr eithriad i'r rheol hon yw defnyddiau ac adnoddau sydd ar gael i bawb, e.e. y defnydd di-dâl o safleoedd cyfryngau cymdeithasol

## CYFRIF A CHYHOEDDIAD

20. Arolygir y cyfrif gan y Swyddog Etholiadau neu'r sawl a enwebir ganddo.

21. Caiff ymgeiswyr ddod i'r cyfrif, neu anfon rhywun yn eu lle, i arsylwi ar y broses.

22. Ni ddaw canlyniad y bleidlais i rym hyd nes bydd y Swyddog Etholiadau wedi cadarnhau bod y canlyniad yn deillio o weithdrefn ddemocrataidd rydd a theg.

## CWYNION AC APELIADAU

23. Bydd y Swyddog Etholiadau'n cymryd cyfrifoldeb llawn am ddehongli'r rheolau hyn ac is-ddeddfau'r undeb.

24. Er mwyn i gŵyn ynglŷn ag unrhyw weithred yr honnir iddi dorri'r Is-Ddeddfau gael ei ymchwilio, rhaid ei wneud i'r DSE. Rhaid i'r cwyn gyfeirio'n benodol at y rheolau yr honnir iddynt gael eu torri.

25. Bydd y DSE yn ymchwilio i gwynion ac yn cyfeirio materion at y SE am benderfyniad.

26. Gall y SE benderfynu gweithredu ar sail canlyniad penderfyniadau. Gall hyn gynnwys diarddel ymgeiswyr.

27. Bydd dyfarniadau'r Swyddog Etholiadau'n dod i rym ar unwaith.

28. Os cred y SE bod y drosedd wedi amharu ar gywirdeb y bleidlais yn sylfaenol, yna gallant hefyd alw am ail-gynnal yr etholiad cynted sy'n ymarferol gwneud hynny.

29. Rhaid i bob cwyn dod i law cyn dechrau'r cyfrif, a heb fod yn ddiweddarach nag un awr ar ôl cau'r bleidlais.

30. Rhaid i gwynion ynglŷn â'r cyfrif gael eu cyflwyno mewn ysgrifen i'r Swyddog Etholiadau cyn cyhoeddi'r canlyniad.

31. Dylid cyfeirio unrhyw apeliadau at y brifysgol, a chânt eu trin fel cwynion ynglŷn â'r broses.

## DATGANIAD

Mae'r rheolau hyn yn ychwanegol i reolau a rheoliadau cyffredinol Undeb y Myfyrwyr a'r Brifysgol.

Cytunaf i gydymffurfio â'r rheolau hyn yn ystod fy ymgyrch, ac rwyf yn sylweddoli y gall peidio gwneud hynny arwain at gael fy niarddel o'r etholiadau/refferendwm sydd dan sylw.

Llofnod:........................................................................................

Dyddiad:......................................................................................

Swydd:.........................................................................................